

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



Enw'r Polisi: **Cod Dinasyddiaeth (yn cynnwys Disgyblaeth Myfyrwyr)**

Cod y ddogfen (os yn berthnasol):

Adran:

**Cwricwlwm**

Awdur y Ddogfen:

**Matthew Rees**

Teitl Swydd:

**Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr**

Dyddiad Cymeradwyo:

**Uwch Dîm Arwain: 11/10/22**

Dyddiad Adolygu:

**Hydref 2024**

### Rhestr Wirio'r Polisi:

Gofynion ar gyfer Llunio'r Polisi		Gwybodaeth Atodol
Ydy'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	Ydy	
Ydy'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	Ydy	
Ydy Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei ystyried ynghylch y polisi hwn? Os ydyw, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i gwblhau Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data.	Amherth-nasol	Nid yw gwybodaeth yn cael ei rhannu'n allanol heblaw am gyda rhieni neu warcheidwaid, sy'n cael ei gwmpasu yn hysbysiad preifatrwydd y dysgwyr.
Ydy'r adolygiad wedi cymryd y Canllawiau/Deddfwriaeth ddiweddaraf i ystyriaeth?	Ydy	
Oes angen cyngor cyfreithiol? Os oes, sicrhewch eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn parhau.	Nac oes	Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol ers y polisi diwethaf
Oes angen hyfforddi staff? Os oes, sicrhewch fod yr hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei drefnu drwy'r Cynghorydd Dysgu a Datblygu.	Nac oes	
Oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol sydd angen eu hystyried? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr AD i drafod hyn ymhellach.	Nac oes	
Oes unrhyw faterion ariannol cysylltiedig? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr Cyllid i drafod hyn ymhellach.	Nac oes	
<i>Defnydd yr Uwch Dîm Arwain yn unig:</i>		
Ydy hwn yn bolisi newydd? Os ydy, mae angen i'r Uwch Dîm Arwain lenwi'r <a href="#">Rhestr Wirio Dirprwyo Cymeradwyaeth Polisiâu'r Coleg</a> adeg y cymeradwyir y polisi.	Nac ydy	
Lefel cymeradwyaeth a roddwyd: <b>Uwch Dîm Arwain</b>		

### Cynnwys

1.0	Pwrpas ac Amcanion	4
2.0	Manylion y Polisi	4
3.0	Cyfrinachedd	5
4.0	Radicalaiddio ac Eithafiaeth	5
5.0	Bwlio ac Aflonyddu	5
6.0	Achosion y Tu Allan i'r Coleg	5
7.0	Cod Dinasyddiaeth	6
8.0	Cydnabyddiaeth (Nodiadau Cadarnhaol a Gwobrau Myfyrwyr)	7
9.0	Y Broses Ddisgyblu	7
9.1	Cofnodion Problemau	7
9.2	Cam Un	7
9.3	Cam Dau	8
9.4	Cam Tri	9
9.5	Cam Pedwar	10
10.0	Argymell Gwaharddiad	11
11.0	Gwahardd	11
12.0	Apelio yn erbyn Gwaharddiad	12
13.0	Gwaharddiad Dros Dro tra'n Disgwyl Cyfweiliad	12
14.0	Myfyrwyr wedi eu Gwahardd Dros Dro	13
15.0	Troseddau	13
16.0	Dogfennau Cysylltiedig	14
17.0	Adolygiad y Ddogfen	14

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



18.0	Atodiad 1: Siart Lif ar gyfer Disgyblu	14
19.0	Atodiad 2: Cynllun Gweithredu Enghreifftiol	15
20.0	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	17
21.0	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	23

### 1. Pwrpas ac Amcanion:

Mae Coleg Penybont yn gwbl ymrwymedig i les myfyrwyr, staff, ymwelwyr, a rhanddeiliaid eraill. Mae'r coleg yn mynd ati'n weithredol yn hyrwyddo lles cadarnhaol y staff a'r myfyrwyr i gyd, gan gynnwys oedolion sy'n agored i niwed a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n disgwyl i'r holl aelodau staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid, gan gynnwys cyflogwyr cysylltiedig a darparwyr lleoliadau gwaith, gefnogi ac arddangos yr ymrwymiad hwn ar bob adeg.

Mae Coleg Penybont yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros ddatblygu myfyrwyr mewn ffyrdd a fydd yn meithrin diogelwch, hyder, ac annibyniaeth, gan alluogi myfyrwyr i fod y cyfan y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod amgylchedd gweithio a Choleg diogel a sicr yn ganolog i les pob myfyriwr, ac mae Cod Dinasyddiaeth y Coleg yn ganolog i alluogi hyn, gan gefnogi ein tri disgwyliad o ran ymddygiad:

- Bod yn barod
- Bod yn barchus
- Bod yn ddiogel

Mae'r disgwyliadau ymddygiad hyn yn cefnogi'r cyfrifoldebau sefydliadol sydd gennym o dan y Ddyletswydd Atal er mwyn hyrwyddo pum Gwerth Prydeinig:

1. Democratiaeth
2. Rheol y gyfraith
3. Rhyddid personol
4. Cyd-barch
5. Goddefgarwch

Mae'r Cod Dinasyddiaeth hwn, sy'n ymgorffori ein hagwedd tuag at ddisgyblu myfyrwyr, yn nodi'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan *bob* myfyriwr sy'n dewis cofrestru yng Ngholeg Penybont (llawn amser, rhan amser, addysg uwch, a dysgu cymunedol) neu yn unrhyw un o'i is-gwmnïau cysylltiedig neu sefydliadau partner.

Pan amheuir camymddygiad academiaidd gan fyfyriwr addysg uwch, bydd y polisi perthnasol yn cael ei gymhwyso a'i gynnal. Pan fydd materion disgyblu yn ymwneud â myfyriwr sydd wedi cofrestru ar lwybr cyn-16 (e.e. Prentisiaethau Iau, Uned Cyfeirio Disgyblion, ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol), gall bolisi'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol perthnasol ddisodli'r polisi hwn.

### 2. Manylion y Polisi:

Nod y polisi hwn yw sicrhau ymagwedd ragweithiol a chadarnhaol tuag at y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r naw nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf, a'n dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth allweddol eraill gan gynnwys 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008', 'Canllawiau Amddiffyn Oedolion 2010', 'Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, dogfen rif 158/2015' a 'Chanllawiau Dyletswydd Atal 2015'.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar bob un o safleoedd y coleg ac i bob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r coleg, ar neu oddi ar y safle, megis cludiant i'r Coleg ac adref a drefnir gan y coleg, ymweliadau, teithiau astudio, a phreswylfeydd (yn y DU neu dramor).

Mae'r polisi hwn yn cydnabod, os ymddengys bod presenoldeb, perfformiad, neu ymddygiad myfyriwr yn arwydd o broblem iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, salwch neu anaf, efallai y byddai'n fwy priodol dilyn y gweithdrefnau a nodir yng ngweithdrefn 'Addasrwydd i Astudio' y coleg.

Mae'r polisi hwn yn cynnwys ein disgwyliadau o ran presenoldeb ac ymddygiad myfyriwr.

### 3. Cyfrinachedd

Nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt, a gellir ei dorri os yw hynny er lles y myfyriwr neu'r cyhoedd ehangach. Os yw gweithwyr proffesiynol o'r farn bod angen datgelu gwybodaeth er mwyn amddiffyn myfyriwr neu eraill rhag perygl difrifol o niwed, efallai y torrir cyfrinachedd.

Rhaid i staff beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â myfyriwr, eu lles, neu eu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd penodol i wneud hynny gan yr Uwch Berson Dynodedig (DSP) neu'r Rheolwr Diogelu a Lles Dynodedig. Mae'r amod hwn yn cynnwys sefyllfaoedd lle bydd aelod staff yn derbyn cais am wybodaeth gan riant, gwarcheidwad, neu o'r heddlu. Mae'n rhaid i'r heddlu ddarparu Ffurflen Gais Data Personol i'r coleg sydd wedi'i llenwi gan Dditectif Arolygydd.

Mae amserlenni cadw data a pholisïau data sy'n ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ar gael ar wefan y coleg, a gellir gwneud cais amdanynt yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data (DPO) y coleg.

### 4. Radicalieiddio ac Eithafiaeth

Mae'r coleg yn ceisio amddiffyn ei fyfyrwyr rhag negeseuon eithafiaeth dreisgar, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rheini sy'n gysylltiedig ag ideoleg Islamaidd, mudiadau'r dde eithafol, a mudiadau hawliau anifeiliaid eithafol.

Bydd unrhyw ymddygiadau a gweithredoedd a ystyrir eu bod yn eithafol neu'n radical eu natur yn cael eu trin yn unol â pholisi diogelu'r coleg, sydd ar gael ar wefan y coleg.

### 5. Bwlio ac Aflonyddu

Diffinnir bwlio fel camddefnydd bwriadol o bŵer neu ddylanwad a gall gymryd sawl ffurf. Lle nad y bwriad o bosibl yw achosi niwed yn fwriadol, gellir o hyd ei ystyried yn fwlio os yw'r dioddefwr yn ei weld fel hynny. Mae bwlio yn cynnwys gweithredoedd corfforol, geiriol, emosiynol, rhywiol, homoffobig, hiliol, ar-lein, troseddau casineb neu weithredoedd sy'n seiliedig ar grefydd.

### 6. Achosion y Tu Allan i'r Coleg

Pan fydd digwyddiadau neu achosion yn digwydd y tu allan i'r coleg (naill ai oddi ar y campws neu y tu allan i oriau agor y coleg) sy'n dwyn anfri ar enw da'r coleg, byddwn yn gweithredu yn unol â'r polisi hwn.

## 7. Cod Dinasyddiaeth

*Byddwch Bopeth y Gallwch Fod trwy fod yn Barod, yn Barchus ac yn Ddiogel*

### Parod

- Byddwch yn brydlon
- Cymerwch ran ym mhob gweithgaredd dysgu a chyfoethogi a amserlennir ac a drefnir
- Dewch â'r offer a'r Cyfarpar Diogelwch Personol angenrheidiol gyda chi
- Rhowch wybod i'r coleg am unrhyw absenoldebau trwy ffonio 01656 302 302 dewis 2

### Parchus

- Parchwch fyfyrwyr eraill, staff, ac ymwelwyr
- Parchwch eich amgylcheddau dysgu
- Parchwch eraill, beth bynnag eu rhyw, rhywioldeb, anabledd, oedran, crefydd, credoau neu hil
- Ysmygwch neu defnyddiwch e-sigarét yn y manau dynodedig yn unig

### Diogel

- Sicrhewch fod eich bathodyn adnabod gyda chi bob amser, a'ch bod yn ei ddangos i aelod o staff y coleg os ydynt yn gofyn i'w weld
- Dilynwch gyfarwyddiadau iechyd, diogelwch a thân wrth ddefnyddio offer ac wrth fynd o amgylch y Coleg
- Rhowch wybod i aelod staff neu i'r Tîm Lles am unrhyw bryderon sydd gennych am eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun arall
- Dilynwch bolisi Defnydd Derbyniol Rhwydwaith TGCh y coleg, gan gynnwys diogelwch ar-lein, defnyddio rhwydweithiau wi-fi, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys camgyfleu'r Coleg neu fwlio)

Weithiau, nid yw ymddygiadau yn cydymffurfio â'n Cod Dinasyddiaeth, sef bod yn barod, yn barchus ac yn ddiogel. Mae enghreifftiau o ymddygiadau a gweithgareddau o'r fath yn cynnwys:

- Gweithgarwch troseddol a chamddefnyddio sylweddau (lladrad, twyll, difrod troseddol, ymosod, meddu ar neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon neu gyffuriau penfeddwol cyfreithlon, a chario arfau ymosodol)
- Eithafiaeth (naill ai'n dreisgar neu'n ddi-drais), a allai gynnwys terfysgaeth neu weithredoedd sy'n peryglu eraill (o dan y Ddeddf Terfysgaeth 2000)

### Ein Disgwyliadau

Cofiwch eich bod yn llysgennad i'r coleg, ac mae hyn yn cynnwys wrth i chi deithio i'r coleg ac adref o'r coleg a phan fyddwch chi allan ar deithiau neu'n gwneud gweithgareddau gyda'r coleg. Trwy lofnodi ein Cod Dinasyddiaeth, rydych chi'n cadarnhau eich bod yn deall hyn, ac yn cytuno i arddangos yr ymddygiadau hyn bob amser.

## 8. Cydnabyddiaeth (Nodiadau Cadarnhaol a Gwobrau Myfyrwyr)

Rydyn ni am i fyfyrwyr ffynnu a chyflawni eu potensial o ran dysgu a bywyd. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu a chyfoethogi rhagorol sy'n gwella profiad ein myfyrwyr ac sy'n darparu llwyfan sy'n eu galluogi i ragori a chyflawni. Gellir dosbarthu Nodiadau Cadarnhaol fel cardiau post corfforol ac fel cofnodion ar MiHub.

Anogir pob aelod staff i roi nodiadau cadarnhaol pan fydd myfyrwyr yn dangos rhagoriaeth o ran agwedd, allbynnau gwaith neu gyflawniadau dysgu. Mae ein Seremoni Gwobrwyo Myfyrwyr flynyddol hefyd yn rhoi cyfle gwych i gydnabod cyflawniadau eithriadol gan fyfyrwyr.

## 9. Disciplinary Process

Mae gan bob myfyriwr yr hawl i ofyn am gyfarfodydd a chyfathrebu ysgrifenedig a llafar cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg heb oedi.

Byddwn bob amser yn ymdrechu i ddefnyddio dulliau adferol lle bo hynny'n briodol, i gefnogi adfyfrio a dysgu.

Lle cyfeirir at 'Diwtor Personol' yn y polisi hwn, mae hyn hefyd yn cynnwys ac yn golygu Hyfforddwr Datblygiad a Chynnydd Personol.

### 9.1 Cofnodion Problemau

9.1.1 Mae Cofnodion Problemau yn ddull y mae Tiwtoriaid Personol neu ddarlithwyr yn ei ddefnyddio i gofnodi problemau parhaus sy'n codi gyda myfyriwr y maent yn credu ei bod yn addas eu cofnodi ar MiHub.

9.1.2 Gall aelod o staff gofnodi hyd at dri chofnod problemau; bydd y trydydd cofnod problemau o fewn cyfnod o chwe wythnos yn uwchgyfeirio'r achos i Gam Un gyda Thiwtor Personol neu Hyfforddwr Datblygiad a Chynnydd Personol y myfyrwyr.

9.1.3 Nid oes hawl i apelio yn erbyn Cofnod Problemau.

### 9.2 Cam Un

**Perchennog y broses:** Tiwtor Personol / Hyfforddwr Datblygiad a Chynnydd Personol (lle bo hynny'n berthnasol)

9.2.1 Pan fydd tri Chofnod Problemau yn codi ac yn cael eu cofnodi ar MiHub, cynhelir cyfarfod Cam Un rhwng y myfyriwr a'r Tiwtor Personol / Hyfforddwr Datblygiad a Chynnydd Personol.

9.2.2 Cynhyrchir Cynllun Gweithredu ar y cyd, sy'n cynnwys deilliannau â therfynau amser a gytunir arnynt. Bydd y myfyriwr a'r Tiwtor Personol / Hyfforddwr Datblygiad a Chynnydd Personol yn llofnodi hwn, a bydd copi ohono'n cael ei storio ar MiHub.



- 9.2.3 Anfonir copi o'r Cynllun Gweithredu yn uniongyrchol at y myfyriwr a'r Tiwtor Personol / Hyfforddwr Datblygiad a Chynnydd Personol. Mae Cynllun Gweithredu enghreifftiol i'w weld yn atodiad 2.
- 9.2.4 Cynhelir cyfarfod adolygu bythefnos ar ôl cyfarfod cychwynnol Cam Un i drafod unrhyw gynnydd a wnaed. Os yw'r materion yn parhau, ewch ymlaen i Gam Dau.
- 9.2.5 Os yw'r myfyriwr wedi cwblhau'r holl gamau gweithredu a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu erbyn y terfynau amser a gytunwyd arnynt, gall Perchennog y Broses isgyfeirio o Gam Un ar ddiwedd y tymor.
- 9.2.4 Nid oes modd gwneud apêl ffurfiol ar y cam yma.

### 9.3 Cam Dau

**Perchennog y broses:** Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm

**Gall myfyriwr symud ymlaen i Gam Dau os nad yw'n cadw at y Cynllun Gweithredu o Gam 1 neu os yw'r myfyriwr yn gyson yn torri'r Cod Dinasyddiaeth (Parod, Parchus a Diogel).**

- 9.3.1 Yng Ngham Dau bydd Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm yn trefnu cyfweiliad gyda'r myfyriwr i asesu/nodi/trafod unrhyw faterion a godwyd yn ystod y broses ddisgyblu hyd yma.
- 9.3.2 Bydd pob agwedd ar ymddygiad y myfyriwr yn cael ei gymryd i ystyriaeth i lunio cynllun gweithredu manwl o gefnogaeth er mwyn dod â'r myfyriwr yn ôl ar y trywydd iawn i ennill ei gymhwyster. Rhaid i gynllun gweithredu'r myfyriwr gynnwys targedau adeiladol a chadarnhaol er mwyn hyrwyddo cynllun dysgu gweithredol a chyraeddadwy ar gyfer y myfyriwr. Dylid ystyried gwasanaethau cymorth ychwanegol, gan gynnwys y Tîm Lles, y Tîm Cymorth Dysgu Ychwanegol a Hyfforddwyr Sgiliau.
- 9.3.3 Cofnodir y cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar MiHub ac anfonir copïau at Berchennog y Broses ac at y myfyriwr.
- 9.3.4 Mewn achosion lle y gellir ei ystyried yn briodol, gall Perchennog y Broses isgyfeirio neu uwchgyfeirio cam y broses ddisgyblu yn unol â'r dystiolaeth a ddarparwyd. Bydd hyn yn cael ei ddogfennu ar MiHub.
- 9.3.5 Dylid cynnal cyfarfod adolygu cynllun gweithredu rhwng y myfyriwr a Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm bythefnos ar ôl cyfarfod Cam Dau, a dylid cofnodi hwn, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu newydd, ar MiHub. Mae gan Diwtoriaid Personol a staff eraill sy'n cyflwyno'r cwricwlwm gyfrifoldeb hefyd i annog myfyriwr i ymgysylltu â'i gynllun gweithredu.
- 9.3.6 Lle na chyflawnwyd camau gweithredu neu lle mae ymddygiad yn parhau i ddisgyn yn is na'r disgwyl, dylid nodi ail ddyddiad adolygu ynghyd ag unrhyw ymyriadau neu gymorth ychwanegol sydd eu hangen.
- 9.3.7 Bydd methu â chyflawni camau gweithredu yn dilyn yr ail gyfarfod adolygu yn arwain at symud ymlaen i Gam Tri o'r broses ddisgyblu.

9.3.8 Os, ar ôl rhoi'r cynllun gweithredu hwn ar waith, bydd y dysgwr yn gysylltiedig â digwyddiadau mwy difrifol a ystyrir yn gamymddwyn/camymddwyn difrifol, dylid uwchgyfeirio hyn yn unol â hynny.

9.3.9 Nid oes modd gwneud apêl ffurfiol ar y cam yma.

### 9.4 Cam Tri

#### Perchennog y broses: Rheolwr y Cwricwlwm

9.4.1 Os yw presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad dysgwr yn fwy difrifol ei natur, neu os nad yw presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad wedi gwella ar ôl ymyriadau Cam Dau, bydd gofyn i'r myfyriwr fynychu cyfweiliad Cam Tri gyda Rheolwr y Cwricwlwm.

Bydd Uwch Weinyddwyr Cwricwlwm yn cynorthwyo i gydlynu cyfarfod i gynnwys rhieni/gofalwyr.

9.4.2 Anfonir llythyr at y myfyriwr yn amlinellu'r pryderon ac yn amlygu hawl y myfyriwr i ddod â rhywun yn gwmni iddo; cadarnhad o amser a lleoliad y cyfweiliad; a datganiad yn egluro, os bydd y myfyriwr yn methu â bod yn bresennol neu os na chaiff dyddiad arall ei drefnu, bod Rheolwr y Cwricwlwm yn cadw'r hawl i aildrefnu'r cyfarfod, heb fawr o rybudd, os o gwbl, yn ôl ei gyfleustra ei hun.

9.4.3 Bydd gan y myfyriwr yr hawl i ddod â chyfoedion, cynrychiolydd myfyrwyr, aelod o'r teulu, neu berson priodol arall yn achos oedolyn sy'n agored i niwed, (ond nid cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd proffesiynol arall oni bai bod y Coleg yn cytuno fel arall) yn gwmni iddo yn y cyfarfod. Caniateir cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd proffesiynol arall os yw'r Coleg yn bwriadu cael cynghorydd allanol yn bresennol.

9.4.4 Yn y cyfweiliad, bydd gan y myfyriwr hawl i ddatgan ei achos gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud a/neu i gynllun gweithredu gael ei lunio.

9.4.5 Os bydd y myfyriwr yn anghytuno â'r dystiolaeth, gall Rheolwr y Cwricwlwm ohirio'r cyfweiliad er mwyn ymchwilio i'r hyn sy'n destun dadl a cheisio rhagor o dystiolaeth briodol. Bydd y cyfweiliad yn cael ei ailgynnull o fewn 10 diwrnod gwaith.

9.4.6 Os yw'n ymddangos bod presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad y myfyriwr yn arwydd o broblem iechyd meddwl, salwch neu anaf, gall fod yn fwy priodol dilyn y gweithdrefnau a nodir yng ngweithdrefn Ffitrwydd i Astudio'r Coleg. Yn ogystal, gellir gohirio'r cyfweiliad er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu yn y dyfodol.

9.4.7 Bydd Rheolwr y Cwricwlwm yn cwblhau Cynllun Gweithredu Cam Tri y mae'n rhaid iddo gynnwys targedau adeiladol a chadarnhaol er mwyn hyrwyddo cynllun dysgu gweithredol a chyraeddadwy i'r myfyriwr. Bydd hwn yn cael ei adolygu gan y Tiwtor Personol neu'r Hyfforddwr Dilyniant a Datblygiad Personol yn wythnosol ac fe ailymwelir ag ef ar y cyd â'r dysgwr ar y dyddiad a gynigir yn y Cynllun Gweithredu gan y bobl sy'n ymwneud â Cham Tri fel yr amlinellir

yn Atodiad 1. Rhaid i'r myfyriwr, Rheolwr y Cwricwlwm a, lle bo'n briodol, rhiant, gofalwr neu warcheidwad, lofnodi'r Cynllun Gweithredu.

9.4.8 Os bydd y dysgwr yn cwblhau'r camau gweithredu gofynnol a nodir ar Gam Tri o'r Cynllun Gweithredu, gellir penderfynu isgyfeirio'r dysgwr i Gam Dau yn y broses ddisgyblu.

9.4.9 Os, ar ôl rhoi'r cynllun gweithredu hwn ar waith, bydd y dysgwr yn gysylltiedig â digwyddiadau mwy difrifol a ystyrir yn gamymddwyn/camymddwyn difrifol, dylid uwchgyfeirio hyn yn unol â hynny.

9.4.10 Nid oes modd gwneud apêl ffurfiol ar y cam yma.

## 9.5 Cam Pedwar

### Perchennog y broses: Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr

9.5.1 Os yw presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad dysgwr yn fwy difrifol ei natur neu'n gamymddwyn difrifol, neu os nad yw presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad wedi gwella ar ôl ymyriadau Cam Tri, bydd gofyn i'r myfyriwr fynychu cyfweiliad Cam Pedwar gyda'r Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr, Pennaeth y Cwricwlwm, a Rheolwr y Cwricwlwm.

9.5.2 Bydd Uwch Weinyddwyr Cwricwlwm yn trefnu gohebiaeth.

9.5.3 Bydd crynodeb o'r camymddwyn difrifol yn cael ei gynnwys yn y llythyr ynghyd â hawl y myfyriwr i ddod â rhywun yn gwmni iddo; cadarnhad o amser a lleoliad y cyfweiliad; a datganiad yn egluro, os bydd y myfyriwr yn methu â bod yn bresennol neu os na threfnir dyddiad arall, bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr yn cadw'r hawl i aildrefnu'r cyfarfod, heb fawr o rybudd, os o gwbl, yn ôl ei gyfleustra ei hun.

9.5.4 Os yw dysgwr o dan 18 oed, mae ganddo'r hawl i ddod ag un cynrychiolydd i'r cyfarfod. Gall hwn fod yn rhiant neu'n warcheidwad.

9.5.5 Bydd Pennaeth y Cwricwlwm yn gweithredu fel y swyddog ymchwilio ac yn cyflwyno'r achos ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gasglwyd i fynychwyr y cyfarfod Cam Pedwar.

9.5.6 Ni ragwelir y bydd canlyniad na phenderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn ystod y cyfarfod. Yn hytrach, pwrpas y cyfarfod yw rhoi cyfle i'r myfyriwr gyflwyno ei achos ac egluro ffeithiau. Bydd canlyniadau a phenderfyniadau terfynol yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod gwaith (ar gyfer apeliadau, gweler paragraff 9.5.12).

9.5.7 Mewn rhai achosion, efallai y bydd y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr yn barnu ei bod yn briodol isgyfeirio neu uwchgyfeirio yn ôl tystiolaeth a natur unigol pob achos. Bydd hyn yn cael ei ddogfennu ar MiHub.

9.5.8 Mewn rhai achosion lle nad oes angen cymryd camau disgyblu, bydd y coleg yn ystyried bod yr achos wedi'i gau.

- 9.5.9 Os bydd rhybudd ysgrifenedig terfynol yn cael ei roi, bydd y rhybudd yn nodi y gallai presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad pellach gan y myfyriwr arwain at wahardd y myfyriwr o'r coleg.
- 9.5.10 Mewn achosion difrifol o bresenoldeb, perfformiad neu ymddygiad gwael, gan gynnwys camymddwyn mynych neu gamymddwyn difrifol, gall y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr roi Rhybudd Terfynol gyda chynllun gweithredu ysgrifenedig.
- 9.5.11 Os bydd Rhybudd Terfynol yn cael ei roi neu pan fydd cynllun gweithredu wedi'i osod (gyda neu heb ataliad), bydd y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr yn pennu dyddiad ac amser ar gyfer adolygu cynnydd.
- 9.5.12 Mae gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr canlyniad. Dylid cyflwyno apelïadau trwy'r post neu e-bost, a'u cyfeirio at y Dirprwy Bennaeth.
- 9.5.13 Os yw'r coleg yn barnu bod yr ymddygiad yn annerbyniol, gall y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr a Phennaeth y Cwricwlwm wneud argymhelliad i'r Dirprwy Bennaeth i wahardd y myfyriwr. Os bydd y Dirprwy Bennaeth yn cadarnhau'r penderfyniad i wahardd, bydd y dysgwr yn cael cyfle i apelio fel yr amlinellir yn adran 13.
- 9.5.14 Dylid cofnodi'r cyfarfod hwn a'r canlyniadau dilynol ar MiHub.

## 10 Argymell Gwaharddiad

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn ystyried y ddogfennaeth a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr a Phennaeth y Cwricwlwm, a'r rhesymau dros yr argymhelliad.

Gall y Dirprwy Bennaeth benderfynu peidio â chynnal yr Argymhelliad i Wahardd ac nad oes angen unrhyw gamau disgyblu pellach.

Gall y Dirprwy Bennaeth argymell y dylid gosod sancsiynau eraill.

Gall y Dirprwy Bennaeth benderfynu cadarnhau'r Argymhelliad i Wahardd. Hysbysir y myfyriwr o'r penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith i'r llythyr canlyniad sy'n argymell gwaharddiad. Mae gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad drwy ysgrifennu, o fewn 7 diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr gwahardd, at y Pennaeth.

## 11 Gwahardd

Y Dirprwy Bennaeth sy'n penderfynu ar gyfnod y gwaharddiad ond ni fydd yn hwy na phum mlynedd.

Yn ystod unrhyw gyfnod o waharddiad, ni chaiff unrhyw fyfyrwr sydd wedi'i wahardd ddychwelyd i'r coleg heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Dirprwy Bennaeth neu'r sawl a fydd yn trefnu goruchwyliaeth berthnasol.

Rhaid i fyfyrwyr sydd wedi'u gwahardd yn flaenorol ac sy'n dymuno dychwelyd i'r coleg wneud cais i'r Pennaeth a Phrif Weithredwr. Bydd penderfyniad y Pennaeth a Phrif Weithredwr yn derfynol.

Mae croeso i unrhyw fyfyrwr wneud cais i Goleg Penybont a bydd pob cais yn cael ei adolygu heb ragfarn.

### **12 Apelio yn erbyn Gwaharddiad**

Dylid gwneud unrhyw apêl yn erbyn gwahardd myfyriwr i'r Pennaeth, a fydd yn cael y ddogfennaeth gyflawn sydd wedi arwain at y gwaharddiad.

Bydd y Pennaeth yn ystyried y ddogfennaeth ac a yw'r gweithdrefnau ym Mholisi'r Cod Dinasyddiaeth (sy'n cynnwys Disgyblu Myfyrwyr) wedi cael eu dilyn.

Bydd y Pennaeth yn dod i benderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau'r gwaharddiad ac yn hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr apêl yn erbyn gwaharddiad.

Mae penderfyniad y Pennaeth yn derfynol ac nid oes modd apelio'n ffurfiol ar y cam yma.

### **13 Gwaharddiad Dros Dro tra'n Disgwyl Ymchwiliad / Cyfweliad Disgyblu**

Gall myfyriwr gael ei wahardd o'r Coleg dros dro ar unwaith gan aelod o Uwch Dîm Arwain y coleg. Rhoddir y myfyriwr yn syth ar Gam Pedwar o Bolisi'r Cod Dinasyddiaeth (sy'n cynnwys Disgyblu Myfyrwyr) a bydd Pennaeth y Cwricwlwm yn gweithredu fel y swyddog ymchwilio ac yn dilyn y drefn a amlinellir yn adran 10.5.

Gall gwaharddiad dros dro oherwydd camymddwyn difrifol neu esgeulustod difrifol arwain at gyfweliad Cam Pedwar a allai arwain at naill ai dim gweithredu pellach, argymhelliad am gosb arall neu argymhelliad i wahardd.

Bydd gwaharddiad dros dro oherwydd gweithred o gamymddwyn difrifol neu esgeulustod difrifol yn disodli unrhyw gamau disgyblu eraill y gallai myfyriwr fod yn rhan ohonynt.

Bydd unrhyw waharddiad o'r fath yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr (o fewn 7 diwrnod gwaith iddo ddigwydd).

Ni ddylai gwaharddiad bara mwy na 10 diwrnod gwaith heb i'r gwaharddiad gael ei ddiddymu neu heb i ddyddiad ar gyfer cyfweliad gael ei bennu.

Os bydd y gwaharddiad yn para mwy na 10 diwrnod gwaith bydd gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y gwaharddiad drwy ysgrifennu at y Dirprwy Bennaeth.

Bydd hawl gan y myfyriwr i ddod â chyfoed, cynrychiolydd myfyrwyr neu aelod o'r teulu, neu berson priodol arall yn achos oedolyn agored i niwed (ond nid cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd proffesiynol arall oni bai bod y coleg yn cytuno i hynny) yn gwmni iddo i'r apêl.

Rhoddir gwybod i'r myfyriwr o ganlyniad yr apêl cyn gynted â phosibl ac yn sicr o fewn 5 diwrnod gwaith. Nid oes modd gwneud apêl bellach yn erbyn y penderfyniad hwn.

### 14 Myfyrywr wedi eu Gwahardd Dros Dro

Bydd y Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad Myfyrywr a Phennaeth y Cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth ddyledus i fyfyrwr sydd wedi'u gwahardd y mae angen iddynt sefyll arholiadau allanol neu asesiadau mewnol o ran a ddylid caniatáu iddynt fynychu. Mewn achosion o'r fath, bydd aelod o staff cymorth yn mynd yn gwmni i unrhyw fyfyrwr sydd wedi'u gwahardd, a byddant fel arfer yn sefyll yr arholiad neu'r asesiad ar wahân i fyfyrwr eraill.

### 15 Troseddau

Os oes gan unrhyw aelod o staff reswm i gredu y gallai myfyriwr fod wedi troseddu, bydd y coleg yn cyfeirio'r mater at yr heddlu a gall barhau ag achos disgyblu o dan y polisi hwn neu wahardd y myfyriwr dros dro tra'n aros am ganlyniad ymholiadau'r heddlu ac unrhyw gyhuddiadau yn erbyn y myfyriwr. Os yw myfyriwr wedi'i wahardd o dan y ddarpariaeth hon, pan fydd canlyniadau'r ymholiadau hynny ac unrhyw achosion troseddol yn hysbys, ceidw'r coleg yr hawl i ailddechrau achos o dan y polisi hwn mewn perthynas â'r mater. Bydd tystysgrif euogfarn gan lys awdurdodaeth gymwys yn brawf terfynol o'r euogfarn honno.

Os oes gan y coleg reswm i gredu bod myfyriwr wedi gwneud cais llwyddiannus i'r coleg ac wedi methu â datgelu euogfarn droseddol sydd heb ei disbyddu, mae'n cadw'r hawl i gymryd camau disgyblu, gan gynnwys tynnu'r cynnig yn ôl lle credir bo hynny'n briodol er diogelwch a lles yr unigolyn, y boblogaeth ehangach o fyfyrwr, a staff y coleg.

Pan fo achos yn codi, naill ai o fewn neu'r tu allan i'r coleg, sy'n arwain at gyhuddiad neu ymchwiliad gan yr heddlu, a/neu amodau mechnïaeth, byddwn yn aros am gasgliad unrhyw ymchwiliad neu wrandawriad cyn gweithredu (lle bo'n berthnasol) y polisi hwn. Yn dibynnu ar natur y cyhuddiad, mae'r coleg yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw ddysgwyr hyd nes y bydd achos yr heddlu wedi dod i ben.

### 16 Dogfennau Cysylltiedig

- Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed
- Polisi Derbyniadau

### 17 Adolygiad y Ddogfen

Bydd y polisi yma a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol, er y byddant yn cael eu diweddarau yn unol â chyhoeddiad unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol.



## Atodiad 1: Siart Lif ar gyfer Disgyblu

Fel rheol, bydd myfyrwyr yn symud trwy'r camau yn gynyddrannol, i fyny ac i lawr y camau disgyblaeth. Er hyn, os tybir bod angen ymyriad ar radd uwch er mwyn ymdrin ag ymddygiad neu weithrediad (e.e. camymddygiad difrifol), gall myfyrwyr ddechrau'r broses ddisgyblu ar unrhyw lefel.

Cofnod Problem 1		Cofnod Problem 2		Cofnod Problem 3	
*** 3 Cofnod Problem o fewn cyfnod o chwe wythnos > symud i Gam Un ***					
Pobl	Camau	Cyfathrebu	Camau Dilynol	Enghreifftiau	
↓ Cam Un ↓					
<p><b>Arweinydd:</b> Tiwtor Personol / Hyfforddwr Datblygiad Chynnydd Personol</p> <p>Student</p>	<p>Creu Cynllun Gweithredu ar sail cofnodion problemau ac sy'n canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel)</p> <p>Mynediad at ymyriad ehangach (e.e. Tîm Lles, Hyfforddwyr Sgiliau, Cymorth Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Myfyrwyr).</p>	<p>Cofnodi ar MiHub</p> <p>Tiwtor Personol yn rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr dros y ffôn neu drwy e-bost</p> <p>Tiwtor Personol yn rhannu'r Cynllun Gweithredu â thîm y cwricwlwm</p>	<p>Adolygu'r Cynllun Gweithredu bythefnos ar ôl y cyfarfod Cam Un. Os yw problemau yn parhau, uwchgyfeiriwch at Gam Dau.</p> <p>Os nad oes problemau pellach, dylid isgyfeirio o Gam Un ar ddiwedd y tymor.</p>	3 cofnod problem o fewn cyfnod o chwe wythnos	
↓↓ Cam Dau ↓↓					
<p><b>Arweinydd:</b> Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm</p> <p>Myfyriwr Tiwtor Personol / Hyfforddwr Datblygiad Chynnydd Personol Rhiant/Gofalwr</p>	<p>Creu Cynllun Gweithredu ar sail y Cynllun Gweithredu blaenorol neu ar y sail resymegol ar gyfer y cyfarfod Cam Dau, sy'n canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel)</p> <p>Mynediad at ymyriad ehangach (e.e. Tîm Lles, Hyfforddwyr Sgiliau, Cymorth Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Myfyrwyr).</p>	<p>Cofnodi ar MiHub</p> <p>Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm yn rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr dros y ffôn neu drwy e-bost</p> <p>Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm yn rhannu'r Cynllun Gweithredu â thîm y cwricwlwm</p>	<p>Adolygu'r Cynllun Gweithredu bythefnos ar ôl y cyfarfod cam dau a chynnal cyfarfod adolygu bythefnos ar ôl y cyfarfod adolygu cyntaf.</p> <p>Os yw problemau yn parhau, uwchgyfeiriwch at Gam Tri.</p>	<p>Heb gyflawni'r cynllun gweithredu Cam 1 Presenoldeb o 85%</p> <p>Fandaleiddio eiddo'r coleg</p> <p>Camymddwyn corfforol/emosiynol Llên-ladrad</p> <p>Problemau Cam 1 yn parhau</p>	
↓↓↓ Cam Tri ↓↓↓					
<p><b>Arweinydd:</b> Rheolwr y Cwricwlwm</p> <p>Myfyriwr Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm Rhiant/Gofalwr</p>	<p>Creu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r maes (meysydd) sy'n peri pryder, gyda disgwyliadau clir sy'n gysylltiedig ag ymddygiad y mae angen ei addasu ac yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel)</p> <p>Mynediad at ymyrraeth ehangach (e.e. Tîm Lles, Hyfforddwyr Sgiliau, Cymorth Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Myfyrwyr)</p>	<p>Cofnodi ar MiHub</p> <p>Rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr a'u gwahodd i gyfarfod</p> <p>Rheolwr y Cwricwlwm yn rhannu'r Cynllun Gweithredu gyda thîm y cwricwlwm</p>	<p>Cyfarfod adolygu wythnosol gyda'r Tiwtor Personol neu'r Hyfforddwr Cynnydd a Datblygiad Personol tan y dyddiad adolygu gyda Rheolwr y Cwricwlwm, y Myfyriwr, Dirprwy Reolwr y Cwricwlwm a'r Rhiant/Gofalwr.</p>	<p>Ymddygiad ymosodol.</p> <p>Unrhyw fath o fwlio neu aflonyddu (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein).</p> <p>Ymddygiad aflonyddgar gormodol.</p> <p>Gweithredoedd a amheuir sy'n peri risg sylweddol i'r unigolyn ei hun neu i eraill.</p>	
↓↓↓↓ Cam Pedwar ↓↓↓↓					
<p><b>Arweinydd:</b> Cyfarwyddwr Dysgu a Phrofiad y Myfyrwyr</p> <p>Myfyriwr Pennaeth Cwricwlwm Rheolwr y Cwricwlwm Rhiant/Gofalwr</p>	<p>Rhoi rhybudd ysgrifenedig terfynol yn amlinellu sut mae'r ymddygiad wedi mynd yn groes i'n disgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel).</p> <p>Mae'n bosibl y bydd dyletswydd arnom i gynnwys yr heddlu neu awdurdodau eraill ar y cam hwn.</p>	<p>Cofnodi ar MiHub</p> <p>Rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr a'u gwahodd i gyfarfod</p> <p>Rhybudd ysgrifenedig yn cael ei anfon at y myfyriwr a chopi yn cael ei lanlwytho i MiHub</p>		<p>Dwyn.</p> <p>Targedu grwpiau o unigolion yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith neu ymddygiad rhywiaethol, hiliol, homoffobig, neu wrth-grefyddol.</p> <p>Camau gweithredu sy'n peri risg sylweddol i'r unigolyn ei hun neu i eraill .</p> <p>Meddu ar arf.</p>	

## Atodiad 2: Cynllun Gweithredu Enghreifftiol

<b>Enw'r Myfyriwr</b>	Jasmine French	<b>Rhif Adnabod</b>	86429
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	18.11.17	<b>Hwylusydd</b>	James Godfrey

### Nodiadau (gan gynnwys nodi sut y mae'r ymddygiad yn cysylltu â'n disgwiliadau: Parod / Parchus / Diogel)

Materion Allweddol: Dwyt ti ddim yn dangos dy fod ti'n **barod** i ddyysgu gan mai 89% yw dy bresenoldeb ar hyn o bryd, ac rydym yn pryderu dros dy hwyrni. Dwyt ti ddim yn dangos **parch** tuag at eraill pan rwyd ti'n defnyddio iaith amhriodol.

Fe wnaethom ni drafod rheswm Jasmine dros ei habsenoldeb, sef heriau ac amgylchiadau personol yn ei bywyd yn y cartref. Mae hyn wedi rhwystro Jasmine rhag derbyn ei lwfans cynhaliaeth addysgol, sydd wedi arwain ati'n cael trafferth talu am y bws, gan orfodi iddi gerdded i'r Coleg sawl bore, ac achosi iddi fod yn hwyr i'r sesiwn gyntaf.

Mae Jasmine yn teimlo ei bod hi wedi gorlethu gan beth o'r gwaith, ac mae hyn yn cael ei gynhlethu bellach wrth iddi gollu rhannau o wersi naill ai drwy fod yn hwyr neu drwy fod yn absennol. Dyma ble mae Jasmine yn adnabod bod ei hiaith yn annerbyniol ac yn amhriodol.

Cam Gweithred	Pobl y bydd angen i mi gael cefnogaeth ganddynt...	Nodiadau adolygu
Sicrhau bod yr iaith rwy'n ei defnyddio yn barchus		
Cwrdd â'r Tîm Lles yn y sesiynau 'galw heibio' wythnosol er mwyn i mi allu trafod sut ydw i'n teimlo ac er mwyn i'r Tîm Lles monitro sut mae pethau i mi yn y cartref.	Tîm Lles	
Bydd James yn siarad â Gwasanaethau Myfyrrwyr er mwyn trefnu cymeradwyaeth ar gyfer lwfans cynhaliaeth addysgol felly bod gen i arian i dalu am y bws, a bydd hyn yn fy ngalluogi i fod yn brydlon.	Gwasanaethau Myfyrrwyr / James	
Byddaf yn mynychu sesiynau ychwanegol gyda'r Hyfforddwr Sgiliau er mwyn i mi allu dal i fynd gyda'r gwaith trafferthus a chael mynediad i'r cymorth sydd angen arnaf.	Hyfforddwr Sgiliau	

<b>Llofnod y Myfyriwr</b>	J. French	<b>Llofnod yr Hwylusydd</b>	J. Gofrey
<b>Dyddiad yr Adolygiad 1af</b>	03.12.17	<b>Amser yr Adolygiad</b>	11:00
<b>Llofnod y Myfyriwr</b>		<b>Llofnod yr Hwylusydd</b>	
<b>Dyddiad yr 2<sup>il</sup> Adolygiad</b>		<b>Amser yr Adolygiad</b>	
<b>Llofnod y Myfyriwr</b>		<b>Llofnod yr Hwylusydd</b>	

### Nodiadau Ychwanegol / Casgliad

Rhaid sganio copi a'i lanlwytho i MiHub



# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b>	Cod Dinasyddiaeth yn cynnwys Disgyblaeth Myfyrwyr					
<b>Perchennog y Polisi</b>	Matthew Rees					
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b>	Disgwyliadau o ran ymddygiad					
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b>	<b>Dysgwyr</b>	✓	<b>Staff</b>	✓	<b>Y Cyhoedd</b>	

### Safonau'r Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnhaol (gallai fod o fudd)	Negyddol (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider what effects, if any (whether positive or adverse), the policy decision would have on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓
95	Safonau Llunio Polisi Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		✓	

		<p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider how the policy could be formulated (or how an existing policy could be changed) so that the policy decision would have positive effects, or increased positive effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			
96	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider how the policy could be formulated (or how an existing policy could be changed) so that the policy decision would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓
97	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p>			✓

		When you publish a consultation document which relates to a policy decision, the document must consider, and seek views on, the effects (whether positive or adverse) that the policy decision under consideration would have on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.			
98	Safonau Llunio Polisi  Policy Making standards	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.  When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would have positive effects, or increased positive effects, on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.	✓		
99	Safonau Llunio Polisi  Policy Making standards	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.  When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, how the policy under consideration could be formulated	✓		

		<p>or revised so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			
101	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p>When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers what effects, if any (and whether positive or adverse), the policy decision under consideration would have on—</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓
102	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers how the policy decision under consideration could be made so that it would</p>			✓

		<p>have a positive effects, or so that it would have increased positive effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			
103	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers how the policy decision under consideration could be made so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓

### Cynllun Gweithredu

Dylai camau gweithredu ddangos y camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur Llwyddiant / (sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu)

**Dyddiad Cwblhau'r Asesiad:** Medi 2022

### ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b>	Cod Dinasyddiaeth yn cynnwys Disgyblaeth Myfyrwyr				
<b>Perchennog y Polisi</b>	Matthew Rees				
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b>	Disgwyliadau o ran ymddygiad				
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b>	<b>Dysgwyr</b>	✓	<b>Staff</b>	✓	<b>Y Cyhoedd</b>

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarnhaol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran		X		
Anabledd		X		
Ailbennu rhywedd		X		
Priodas a phartneriaeth sifil		X		
Beichiogrwydd a mamolaeth		X		
Hil		X		
Crefydd neu gred		X		
Rhyw		X		
Cyfeiriadedd rhywiol		X		

Dyddiad cwblhau: Medi 2022

Llofnod y Rheolwr a gwblhaodd yr asesiad: M. Rees